# Diwygio Ffioedd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 12 Chwefror 2024

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Diwygio Ffioedd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

## Ymateb i'r ymgynghoriad

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Cynnwys

**Cynnwys** 1

**Am yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn** 2

Cwynion neu Sylwadau 2

**Cyflwyniad** 3

Cefndir 3

Crynodeb o'r ymatebion 4

**Ymatebion i'r cwestiynau penodol** 5

**Materion amrywiol y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn** 17

**Casgliad a'r camau nesaf** 18

**Asesiad Effaith, Cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg** 19

Asesiad Effaith 19

Cydraddoldebau 19

Yr iaith Gymraeg 19

**Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr** 20

**Atodiad B: Rhestr derfynol o'r newidiadau mewn ffioedd a gynigir** 21

**Atodiad C: Incwm y Goruchaf Lys** 23

# Am yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori: Diwygio Ffioedd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- Y cefndir i'r adroddiad.
- Crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad.
- Ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad.
- Y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â'r **Tîm Polisi Ffioedd** yn y cyfeiriad isod:

Fees Policy Team

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

102 Petty France

Llundain

SW1H 9AJ

E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatiau eraill gan mojfeespolicy@justice.gov.uk.

## Cwynion neu Sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, yna dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# Cyflwyniad

## Cefndir

1. Cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar 16 Hydref ar set o ddiwygiadau i'r ffioedd sy'n daladwy yng Ngoruchaf Lys y DU. Pwrpas y cynigion oedd lleihau cymhlethdod yn y system ffioedd bresennol, darparu incwm ychwanegol i'r Goruchaf Lys ar gyfer cyflawni ei waith pwysig, a sefydlu fframwaith ar gyfer newidiadau mewn ffioedd yn y dyfodol.

2. Y cynigion penodol yr ymgynghorwyd arnynt, a'r cwestiwn roeddent yn rhan ohono yn yr ymgynghoriad, oedd:

   - **Cwestiwn 1:** Cyfuno'r ffioedd a ddefnyddir i ddechrau apêl (ffi 2.1 neu 2.2) gyda'r ffi sy'n cael ei thalu wrth gyflwyno ffeithiau allweddol a materion yr apêl (ffi 2.5), a chyfuno'r ddwy ffi sy'n daladwy yn rhan o asesiad costau (ffi 4.1 a ffi 4.2);
   - **Cwestiwn 2:** Cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng ffioedd achosion awdurdodaeth ddatganoli a ffioedd achosion sifil, ac eithrio ffi 2.3;
   - **Cwestiwn 3:** Cadw ffi 2.3 fel ffi ar wahân heb ffi gyfatebol ar gyfer achosion sifil, ac ehangu ei chwmpas i gynnwys achosion sy'n cael eu cyfeirio ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gymathwyd (a ddargedwir);
   - **Cwestiwn 4 a 5:** Cynyddu'r rhan fwyaf o'r ffioedd sy'n daladwy yn y Goruchaf Lys 40%, i roi cyfrif am chwyddiant hanesyddol rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2023;
   - **Cwestiwn 6:** Cymhwyso'r egwyddor o adolygu ac addasu ffioedd y Goruchaf Lys yn rheolaidd i roi cyfrif am newidiadau mewn costau.

3. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 27 Tachwedd 2023 a'r ddogfen hon yw ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad. Mae'n darparu:

   - crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
   - ymateb manwl ar gyfer pob thema a'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad;
   - y camau nesaf a gymerir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

4. Diweddarwyd yr Asesiad Effaith a oedd gyda'r ymgynghoriad er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y dyddiad gweithredu a chyfeiriadau at Adroddiad Blynyddol y Goruchaf Lys ar gyfer 2022/23. Mae'r Datganiad Cydraddoldebau yn cynnwys mân ddiwygiadau i adlewyrchu newidiadau a gafwyd ers ei gyhoeddi ddiwethaf. Cyhoeddir y dogfennau hyn ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

5. Ceir rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn **Atodiad A**. Ceir y rhestr lawn o gynigion y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw yn dilyn yr ymgynghoriad yn **Atodiad B**.

# Crynodeb o'r ymatebion

6. Cafwyd cyfanswm o naw ymateb i'r ymgynghoriad. O'r rhain, cafwyd pump gan aelodau presennol o'r farnwriaeth. Yr ymatebwyr eraill oedd cyn-aelod o'r farnwriaeth, Cyngor y Bar Cymru a Lloegr, Cyngor y Bar Gogledd Iwerddon a Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant.

7. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys saith cwestiwn, ac nid oedd pob un o'r ymatebwyr wedi darparu ateb i'r holl gwestiynau hynny. Roedd pum ymateb gan aelodau presennol a chyn-aelodau'r farnwriaeth yn cydnabod yr ymgynghoriad ond nid oeddent yn darparu atebion i'r cwestiynau penodol. Lle'r oedd ymatebwyr wedi ateb cwestiynau'r ymgynghoriad, rydym wedi dadansoddi eu barn ac wedi ystyried cynnwys ein cynigion polisi yng ngoleuni'r themâu penodol a chyson a godwyd ganddynt. Felly mae'r crynodeb o ymatebion isod yn canolbwyntio ar y pedwar ymatebydd sy'n weddill.

8. Roedd ymatebwyr yn fodlon at ei gilydd ar y cysyniad o aildrefnu a symleiddio ffioedd. Roedd ymatebwyr yn fodlon ar yr egwyddor gyffredinol bod angen cynyddu ffioedd, ond wedi mynegi pryderon am y cynigion penodol yn yr ymgynghoriad. Yn gyffredinol, y tri phryder pennaf a godwyd oedd:

- a oedd cyfiawnhad dros gynnydd o 40% mewn ffioedd yng nghyd-destun y pwysau presennol ar gostau byw;
- yr effaith o gynyddu ffioedd ar fynediad at gyfiawnder;
- yr effaith o gynyddu ffioedd ar gydbwysedd cyllid y Goruchaf Lys rhwng y Llywodraeth a defnyddwyr.

# Ymatebion i'r cwestiynau penodol

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig i symleiddio ffioedd y Goruchaf Lys?

9. Pedwar ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd un ymatebydd (25%) wedi rhoi 'ydw' yn ateb, roedd tri ymatebydd (75%) wedi rhoi 'nac ydw' yn ateb.

10. Nododd ymatebwyr fod symleiddio ac aildrefnu proses ffioedd y Goruchaf Lys yn amcan dymunol ac y byddai'n helpu i leihau cymhlethdod yn ogystal â helpu'r Goruchaf Lys i ddarparu gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr. O'r ymatebwyr a anghytunodd, roedd un wedi codi pryder y byddai cyfuno'r ffi i ddechrau apêl (ffi 2.1 neu 2.2) gyda'r ffi am ffeilio datganiad o ffeithiau a materion (ffi 2.5) yn golygu codi ffi fwy ar ddechrau'r broses ac achosi anfantais ariannol i'r apelyddion hynny sy'n setlo cyn y byddai'r ail ffi yn daladwy.

11. Roedd ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr effaith o gynyddu ffioedd ar fynediad at gyfiawnder, neu ar gydbwysedd y cyllid i'r Goruchaf Lys rhwng defnyddwyr a threthdalwyr – mae rhagor o fanylion am y pryderon a godwyd a'n hymateb ni wedi'u darparu ym mharagraffau 24-40.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

12. Er ein bod yn cydnabod y pryder a fynegwyd am y cynnig i gyfuno ffi 2.1 / ffi 2.2 gyda ffi 2.5, rydym yn credu at ei gilydd fod y manteision o gyfuno'r ffioedd hynny yn fwy nag unrhyw anfanteision posibl.

13. Yn gyntaf, anaml iawn y mae achosion yn y Goruchaf Lys yn cael eu tynnu'n ôl cyn gwrandawiad, a dim ond wyth achos a dynnwyd yn ôl cyn gwrandawiad dros y pum mlynedd diwethaf. O'r wyth achos hynny, dim ond dau a dynnwyd yn ôl cyn talu ffi 2.5. Yn ail, mae'r rhaniad presennol rhwng ffi 2.1 a 2.2 a ffi 2.5 yn achosi baich gweinyddol. Drwy gyfuno'r ffioedd, bydd baich gweinyddol llai ar y Goruchaf Lys a bydd llai o angen i apelyddion wneud ceisiadau am ddileu ffioedd ac i'r Goruchaf Lys brosesu'r ceisiadau hynny ddwy waith.

14. Rydym yn credu, er y gellir colli cymhelliad bach i setlo cyn sbarduno ffi 2.5, nad yw'n gymesur cadw'r rhaniad presennol rhwng ffioedd, o ystyried y baich gweinyddol ychwanegol a phrinder y dystiolaeth bod y rhaniad presennol rhwng ffioedd yn rhoi cymhelliad gwirioneddol i setlo cyn sbarduno'r ffi nesaf.

15. Rydym yn croesawu'r farn gan randdeiliaid y byddai symleiddio ac aildrefnu proses ffioedd y Goruchaf Lys yn helpu i leihau cymhlethdod i ddefnyddwyr, ac felly byddwn yn bwrw ymlaen â'r ddwy agwedd yr ymgynghorwyd arnynt. Y cynnig cyntaf y

byddwn yn bwrw ymlaen ag ef yw cyfuno'r ffi i ddechrau apêl (ffi 2.1 neu 2.2) gyda'r ffi am ffeilio datganiad o ffeithiau a materion (ffi 2.5). Yr ail gynnig yw cyfuno'r ffi a godir wrth gyflwyno hawliad am gostau (ffi 4.1) gyda'r ffi am ardystio swm y costau a aseswyd gan y Cofrestrydd, neu ar ôl derbyn gorchymyn yn dangos y swm (ffi 4.2).

**Cwestiwn 2:** Ar wahân i ffi 2.3, a ydych yn cytuno y dylid dileu'r strwythur ffioedd ar gyfer achosion datganoli, fel bod yr un ffi yn daladwy ar gyfer yr achosion hyn ag ar gyfer apeliadau sifil eraill?

16. Tri ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd un ymatebydd (33%) wedi rhoi 'ydw' yn ateb, a dau ymatebydd (66%) wedi rhoi 'nac ydw' yn ateb.

17. Un pryder a godwyd yw nad yw'r strwythur ffioedd ar gyfer achosion datganoli yn ystyried amrywiadau economaidd-gymdeithasol rhanbarthol. Gwnaeth yr ymatebydd y gymhariaeth rhwng yr enillion blynyddol canolrifol ar gyfer cyflogeion amser llawn yng Ngogledd Iwerddon, sef £32,900, a'r canolrif ar gyfer y DU, sef £35,000. Cynigiodd y dylai'r ffioedd gydnabod a chadw amrywiadau rhanbarthol, yn gyson â'r dull hirsefydlog o weithredu gan Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor a fabwysiadwyd yn wreiddiol gan y Goruchaf Lys. Roedd hefyd wedi codi mater y trefniadau cyfansoddiadol union gytbwys sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon ac wedi nodi y dylid cydnabod a diogelu'r hawl gyfansoddiadol i gael mynediad dirwystr i'r llysoedd yn yr amgylchiadau hyn.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

18. Nid ydym yn credu y bydd dileu'r strwythur ffioedd ar gyfer achosion datganoli yn rhwystro mynediad at gyfiawnder i unigolion, nac yn cael effaith anghymesur ar unigolion o wahanol rannau o'r DU. Y rheswm am hyn yw nad yw unigolion fel arfer yn dod ag achosion datganoli. Yn y pum mlynedd diwethaf, daethpwyd â deg achos datganoli i'r Goruchaf Lys, ac ym mhob achos yr apelydd oedd y Llywodraeth neu awdurdod datganoledig. Er mai anaml y bydd unigolion yn dod ag achosion datganoli, bydd apelyddion ar incwm isel yn gymwys ar gyfer dileu ffioedd.

19. Mae'r gost weinyddol a'r amser barnwrol mewn achosion datganoli yr un fath ag mewn achosion tebyg nad ydynt yn ymwneud â datganoli. Felly, bydd dileu'r gwahaniaeth rhwng achosion nad ydynt yn ymwneud â datganoli ac achosion yr awdurdodaeth ddatganoli yn fodd i symleiddio'r strwythur ffioedd a sicrhau bod y ffioedd a godir yn adlewyrchu'n well y gost am ddarparu'r gwasanaeth.

20. Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr oedd yn yr ymgynghoriad, gan ddileu'r strwythur ffioedd ar gyfer achosion datganoli fel y bydd yr un ffi yn daladwy ar gyfer yr achosion hyn ag ar gyfer apeliadau sifil eraill.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno y dylai'r ffi am achosion datganoli sy'n cael eu cyfeirio (ffi 2.3) gael ei chynyddu i ganiatáu i'r Goruchaf Lys adennill mwy o'r costau i weinyddu achosion o'r fath? A ydych yn cytuno y dylid ehangu cwmpas y ffi hon fel ei bod hefyd yn gymwys i achosion sy'n cael eu cyfeirio ar gyfraith achosion yr UE a ddargedwir?

21. Dau ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd un ymatebydd (50%) wedi rhoi 'ydw' yn ateb, ac un ymatebydd (50%) wedi rhoi 'nac ydw' yn ateb.

22. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

23. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr oedd yn yr ymgynghoriad, gan gynyddu'r ffi am achosion datganoli sy'n cael eu cyfeirio, ac ehangu cwmpas y ffi fel y bydd yn gymwys hefyd i achosion sy'n cael eu cyfeirio ar gyfraith achosion yr UE a gymathwyd (a ddargedwir).

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y dylem geisio cynyddu gwerth ffioedd y Goruchaf Lys yn ôl chwyddiant i gefnogi gwaith y Goruchaf Lys?

**Cwestiwn 5:** A oes unrhyw ffioedd a amlinellir yn y papur hwn na ddylid eu cynyddu yn ôl chwyddiant hanesyddol?

24. Pedwar ymatebydd a atebodd gwestiwn 4. Roedd un ymatebydd (25%) wedi rhoi 'ydw' yn ateb, a thri ymatebydd (75%) wedi rhoi 'nac ydw' yn ateb. Roedd y tri ymatebydd a roddodd 'nac ydw' yn ateb i gwestiwn 4 i gyd wedi rhoi 'oes' yn ateb i gwestiwn 5, ac wedi awgrymu na ddylid cynyddu unrhyw ffioedd.

25. Roedd yr ymatebydd a gytunodd â chwestiwn 4 wedi croesawu ein cynnig gan fod y diffyg cynnydd er 2009 wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng ngwerth incwm y Goruchaf Lys mewn termau real. Roedd 50% o'r holl ymatebwyr hefyd wedi derbyn bod cyfiawnhad dros rai addasiadau ar gyfer chwyddiant ac roedd un ymatebydd wedi croesawu'r defnydd o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu fel ffordd i fesur chwyddiant.

26. Y pryder cyffredinol ymysg ymatebwyr a anghytunodd â'r cwestiwn hwn oedd y byddai'r cynnydd mewn ffioedd yn gallu bod yn rhy fawr. Nodwyd pedwar pwynt:

   a) **Y cydbwysedd rhwng cyfraniad y trethdalwyr a chyfraniad y defnyddwyr at gyllido'r Goruchaf Lys:** Nododd ymatebwyr nad oedd yr ymgynghoriad wedi crybwyll y rhaniad rhwng cyllid llywodraeth a chyllid o ffioedd pan sefydlwyd y Goruchaf Lys er mwyn gallu gwneud cymhariaeth ddilys â'r cynnig yn yr

ymgynghoriad. Roeddent wedi codi pryderon ynghylch y ffordd y byddai'r rhaniad hwn yn newid o ganlyniad i'r cynnydd mewn ffioedd.

b) **Y perygl o wrthod mynediad at gyfiawnder drwy gynyddu ffioedd:** Roedd dau ymatebydd wedi codi pryderon y byddai cynnydd o'r maint a gynigiwyd yn arwain at ffi a fyddai'r rhwystro mynediad at gyfiawnder i ymgyfreithwyr ar gyflog isel. Roedd yr ymatebwyr wedi nodi hefyd fod y trothwy incwm misol o £1,420 ar gyfer dileu'r ffi yn llwyr yn un rhy isel. Roeddent wedi nodi na fyddai cynllun dileu ffioedd y Goruchaf Lys yn rhoi cefnogaeth lawn i weithiwr mewn cyflogaeth amser llawn ar y Cyflog Byw (ar y gyfradd a bennwyd gan y Living Wage Foundation), yn Llundain a'r tu allan i Lundain, fel y byddai perygl o wrthod mynediad at gyfiawnder.

c) **A yw'n deg cynyddu ffioedd mewn cyd-destun lle mae prisiau'n codi:** Dadleuodd un ymatebydd y byddai cynnydd o 40% yng nghyd-destun y pwysau ar gostau byw yn achosi annhegwch, ac na ddylai'r Llywodraeth drosglwyddo holl faich y cynnydd mewn chwyddiant i ddefnyddwyr. Nododd hefyd fod y cynnydd o 40% yn uwch na'r cynnydd cyffredinol o 10% y mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori arno ar gyfer y rhan fwyaf o ffioedd yn y llysoedd is yng Nghymru a Lloegr.

d) **Gallu busnesau neu ddefnyddwyr i fforddio Cwnsler y Brenin:** Roedd un ymatebydd nad oedd yn derbyn bod y ffaith bod yr ymgyfreithiwr yn sefydliad neu'n un sy'n cyfarwyddo Cwnsler y Brenin yn golygu o reidrwydd y bydd yn gallu fforddio unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn y dyfodol.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

27. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r gefnogaeth ac yn deall y pryder ynghylch ein cynnig i gynyddu ffioedd. Er hynny, hoffem bwysleisio mai'r bwriad wrth gynyddu ffioedd fel hyn yw delio â'r gostyngiad sylweddol yng ngwerth y ffioedd mewn termau real a darparu incwm ychwanegol ar gyfer gweinyddu'r Goruchaf Lys. Rydym yn trafod pob un o'r pedwar pryder a nodwyd ym mharagraff 26 yn eu tro isod.

**Y cydbwysedd rhwng cyfraniad y trethdalwyr a chyfraniad y defnyddwyr at gyllido'r Goruchaf Lys:**

28. Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad o gyllid y Goruchaf Lys o ffynonellau trethdalwyr ac o ffioedd y Goruchaf Lys yn y blynyddoedd 2010/11 i 2022/23. Mae hefyd yn dangos y rhaniad mewn canrannau rhwng cyllid y trethdalwyr a chyllid o ffioedd ar gyfer y Goruchaf Lys. Nid ydym wedi cynnwys y blynyddoedd 2013-2020 er mwyn hwyluso darllen a chaniatáu cymharu rhwydd rhwng y cyfnod pan newidiwyd y ffioedd ddiwethaf a'r presennol. Mae'r tabl llawn yn Atodiad C.

**Tabl 1: Incwm y Goruchaf Lys o gyllid trethdalwyr ac o ffioedd llys, 2010/11 i 2022/23**

| Blwyddyn | Cyfraniadau'r trethdalwyr * (£) (000) | Ffioedd y Goruchaf Lys (£) (000) | Incwm arall ** (£) (000) | Cyfraniadau'r trethdalwyr yng nghyfanswm yr incwm (%) | Ffioedd y Goruchaf Lys yng nghyfanswm yr incwm (%) | Cyfraniad incwm arall yng nghyfanswm yr incwm (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010/11** | 5,970 | 934 | 206 | 84 | 13 | 3 |
| **2011/12** | 5,970 | 727 | 241 | 86 | 10 | 3 |
| **2012/13** | 6,415 | 851 | 201 | 86 | 11 | 3 |
| **-** | | | | | | |
| **2020/21** | 6,632 | 751 | 294 | 86 | 10 | 4 |
| **2021/22** | 6,632 | 533 | 455 | 87 | 7 | 6 |
| **2022/23** | 6,792 | 783 | 512 | 84 | 10 | 6 |

* Cyfanswm y cyfraniadau o GLlTEF, Trysorlys EF, a'r awdurdodaethau datganoledig.
** Incwm o ffioedd Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor ac o fentrau yn y farchnad ehangach.

29. Mae Tabl 1 yn dangos bod cyfraniad y trethdalwr at weinyddu'r Goruchaf Lys wedi cynyddu'n gyffredinol yn y cyfnod rhwng 2011 a 2023 yn nhermau arian parod - yn 2010/11, cyfraniad y trethdalwr oedd £5,970,000 ac yn 22/23 roedd hyn wedi cynyddu i £6,792,000. Ar y llaw arall, mae incwm o ffioedd wedi bod yn sefydlog at ei gilydd, ac o gymharu â 2010/11 mae wedi lleihau. Mae dadansoddiad llawn o incwm y Goruchaf Lys yn Atodiad C isod, lle dangosir yn gliriach y duedd i ffioedd llys barhau i gyfrannu llai at gyfanswm cyllid y Goruchaf Lys. Bydd yr incwm ychwanegol a amcangyfrifwyd o £170,000-210,000 y flwyddyn yn dod â'r cydbwysedd rhwng cyfraniadau'r trethdalwr a ffioedd llys yn agosach at yr hyn oedd pan osodwyd y ffioedd ddiwethaf.

**Y perygl o wrthod mynediad at gyfiawnder drwy gynyddu ffioedd:**

30. Rydym yn hyderus na fydd ein cynigion yn gwrthod mynediad i'r Goruchaf Lys i ymgyfreithwyr sydd ar gyflog isel am ddau reswm.

31. Y rheswm cyntaf yw bod trefniadau ar waith i ddileu ffioedd, yn enwedig ers cyflwyno cynllun diwygiedig ar 27 Tachwedd 2023. Effaith y cynllun diwygiedig hwn yw lleihau'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer nifer mawr o unigolion. Mae Tabl 2 yn cymharu'r swm y byddai angen ei dalu gan apelydd sydd mewn gwaith amser llawn ac yn cael Cyflog Byw y DU (a bennwyd gan y Living Wage Foundation) os oedd yn sengl ac wedi bodloni'r prawf cyfalaf o dan y cynllun dileu ffioedd blaenorol, a'r hyn y byddai'n ei dalu'n awr am ffi o'r un fath o dan y cynllun diwygiedig. Ni fyddai'r ymgyfreithiwr hwn yn talu'r ffioedd yn llawn ac, mewn gwirionedd, bydd yn talu llai

tuag at ffioedd y Goruchaf Lys o dan y cynllun diwygiedig nag y byddai wedi gwneud o'r blaen.

**Tabl 2: Cymharu'r cynlluniau dileu ffioedd blaenorol a phresennol ar gyfer y prif ffioedd apelio**

| Incwm blynyddol gros | Disgrifiad o'r ffi | Y swm presennol | Yr hen gynllun dileu ffioedd | | Y cynllun dileu ffioedd presennol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Y swm a dalwyd | Y ganran a dalwyd | Y swm a dalwyd | Y ganran a dalwyd |
| **£23,400 (Cyflog Byw y DU)*** | Caniatâd i apelio (ffi 1.1) | £1,000 | £390 | 39% | £265 | 26.5% |
| | Bwriad i fwrw ymlaen (ffi 2.1) | £800 | £390 | 48.75% | £265 | 33% |
| | Hysbysiad i apelio (ffi 2.2) | £1,600 | £390 | 24.5% | £265 | 16.5% |

* Cyflog Byw y DU sydd wedi'i bennu gan y Living Wage Foundation. Mae hyn wedi'i gyfrifo drwy gymryd bod yr unigolyn yn ennill £12 yr awr ac yn gweithio 37.5 awr yr wythnos am 52 o wythnosau'r flwyddyn

32. Yr ail reswm yw y bydd y mesurau diogelu ariannol hyn, oherwydd eu ffordd o weithio, yn cadw nifer mawr o bobl rhag teimlo unrhyw effaith o gwbl o gynnydd mewn ffioedd. Os yw ymgyfreithiwr yn cael dileu ei ffioedd yn llawn (un ai oherwydd lefel ei incwm, neu am ei fod yn cael budd-daliadau penodol), ni fydd y cynnydd mewn ffioedd yn effeithio arno. Mae cohort yr unigolion a fyddai'n cael dileu eu ffioedd yn llawn yn un sydd wedi cynyddu o ganlyniad i gyflwyno'r cynllun diwygiedig. Os yw'r ymgyfreithiwr yn cael Cymorth Cyfreithiol sy'n talu cost ei ffioedd llys, yna ni fydd yn teimlo effaith y cynnydd mewn ffioedd ychwaith.

33. Mae hyd yn oed yn bosibl na fydd ymgyfreithwyr ar lefelau incwm uwch yn profi effaith y cynnydd mewn ffioedd (yn ôl lefel y cyfalaf gwario sydd ganddynt). Dangosir hyn yn Nhabl 3 gyda dwy enghraifft. Yr enghraifft gyntaf yw ymgyfreithiwr sydd ag incwm gros ar lefel Cyflog Byw y DU (£23,400). Ni fyddai'n gorfod talu mwy tuag at y prif ffioedd i apelio nag y mae'n gwneud ar hyn o bryd. Yr ail enghraifft yw apelydd sydd yn sengl, heb ddibynyddion, sydd heb ddim neu nemor ddim cynilion, ac sydd ag incwm misol gros o £4,420 (£53,040 y flwyddyn). Byddai'r unigolyn hwn yn gymwys o hyd i gael dileu rhan o'r ffi a byddai'n talu £2,100 ar y mwyaf tuag at ei ffi llys.[1] Y rheswm am hyn yw bod y cyfrifiad o'r rhan o'r ffi sydd i'w dileu yn cael ei seilio ar y swm y mae'r unigolyn yn ei ennill uwchlaw'r trothwy perthnasol ar gyfer incwm misol gros ac nid yn ôl lefel y ffi. Yn gyffredinol, rydym wedi asesu bod y cymorth

[1] Mae'r rheini sydd ag incwm aelwyd uwch yn gymwys i gael dileu ffioedd yn ôl cyfansoddiad eu haelwyd. Er enghraifft, byddai'r rheini sydd ar aelwyd lle mae dau oedolyn a dau blentyn 13 oed neu iau yn gallu ennill hyd at £71,760 y flwyddyn a bod yn gymwys, er hynny, i gael dileu eu ffioedd neu ran ohonynt.

ariannol sydd ar gael yn ddigon i sicrhau bod unigolion ar draws y dosbarthiad incwm yn gallu cael mynediad i'r Goruchaf Lys.

**Tabl 3: Cyfraniadau tuag at y prif ffioedd apelio dan y strwythur ffioedd presennol a'r un a gynigir**

| Incwm blynyddol gros | Disgrifiad o'r ffi | Y strwythur ffioedd presennol | | | Y strwythur ffioedd a gynigir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Swm y ffi | Y swm a dalwyd | Y ganran a dalwyd | Swm y ffi | Y swm a dalwyd | Y ganran a dalwyd |
| **£23,400** **(Cyflog Byw y DU)** | Bwriad i fwrw ymlaen (ffi 2.1) | £1,000 | £265 | 26.5% | £1,390 | £265 | 19% |
| | Hysbysiad i apelio (ffi 2.2) | £800 | £265 | 33% | £7,855 | £265 | 3.5% |
| | Datganiad o ffeithiau a materion (ffi 2.5) | £1,600 | £265 | 16.5% | £8,975 | £265 | 3% |
| | Caniatâd i apelio (ffi 1.1) | £4,820 | £265 | 5.5% | **Ffi wedi'i thynnu a'i chyfuno â ffi 2.1 a 2.2** | | |
| **£53,040*** | Bwriad i fwrw ymlaen (ffi 2.1) | £1,000 | £1,000 | 100% | £1,390 | £1,390 | 100% |
| | Hysbysiad i apelio (ffi 2.2) | £800 | £800 | 100% | £7,855 | £2,100 | 27% |
| | Datganiad o ffeithiau a materion (ffi 2.5) | £1,600 | £1,600 | 100% | £8,975 | £2,100 | 23.5% |
| | Bwriad i fwrw ymlaen (ffi 2.1) | £4,820 | £2,100 | 44% | **Ffi wedi'i thynnu a'i chyfuno â ffi 2.1 a 2.2** | | |

* Dyma'r swm mwyaf y mae unigolyn sengl heb blant yn gallu ei ennill cyn peidio â bod yn gymwys am ddileu rhan o'i ffi.

34. Bydd y ddau ymgyfreithiwr yn yr enghraifft uchod yn talu swm llai tuag at y prif ffioedd i apelio o dan y cynigion. O dan y strwythur ffioedd presennol byddai'r ymgyfreithwyr hyn yn cyfrannu tuag at ffi 2.5 ond gan y byddwn yn cyfuno'r ffi hon â ffi 2.1/2.2 mae

hyn yn golygu y bydd ymgyfreithwyr yn talu llai at ei gilydd. Mae Tabl 4 yn dangos hyn.

**Tabl 4: Cymharu'r gost gyfan am y prif ffioedd apelio o dan y strwythur ffioedd presennol a'r un a gynigir**

| Incwm blynyddol gros | Y strwythur ffioedd presennol | | | Y strwythur ffioedd a gynigir | | | Gwell ynteu gwaeth o ganlyniad i'r newidiadau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swm cyfan y ffi i apelio* | Y swm a dalwyd | Y ganran a dalwyd | Swm cyfan y ffi i apelio* | Y swm a dalwyd | Y ganran a dalwyd | |
| **£23,400 (UK Living Wage)** | £6,620 | £795 | 12% | £10,365 | £530 | 5% | **Gwell** |
| **£53,040** | £6,620 | £3,900 | 59% | £10,365 | £3,490 | 34% | **Gwell** |

* Dyma werth cyfun ffioedd 1.1, 2.1, a 2.5. Y rhain yw'r ffioedd a gaiff eu talu wrth apelio i'r Goruchaf Lys lle mae angen cael caniatâd i apelio. Gan ein bod yn cynnig cyfuno ffi 2.1/ 2.2 a'r ffi am gyflwyno datganiad o ffeithiau a materion (ffi 2.5) mae hyn yn lleihau nifer y ffioedd sy'n daladwy i gychwyn apêl.

35. Y farn olaf sy'n cael ei thrafod yn yr adran hon yw'r farn bod y trothwy incwm o £1,420 yn is na lefel Cyflog Byw y DU, ac y byddai gofyn am dalu ffioedd gan unigolion sy'n ennill swm tebyg i Gyflog Byw y DU yn creu'r perygl o wrthod mynediad iddynt i'r Goruchaf Lys. Mae'r sail resymegol dros ddewis lefel y trothwy hwn wedi cael ei hegluro'n fanylach yn ymgynghoriad y Llywodraeth ar ei pholisi diwygiedig ar gyfer dileu ffioedd. [2] Mae'r trothwy incwm misol yn rhoi cyfrif am wariant arferol a rhesymol yr unigolyn, a barn y Llywodraeth yw y gellid defnyddio unrhyw incwm ychwanegol uwchlaw'r lefel hon tuag at dalu ffi – un ai'n rhannol neu'n llawn (yn ôl union lefel incwm yr unigolyn). Bydd y trothwy penodol sy'n gymwys i'r unigolyn yn codi yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd. Er enghraifft, os yw'r apelydd yn bodloni'r prawf cyfalaf gwario a'i fod yn sengl a bod ganddo blentyn dros 13 oed, bydd ei ffi yn cael ei dileu'n llawn os yw ei incwm misol gros yn £2,130 neu'n llai, a hynny'n cyfateb i gyflog blynyddol gros o £25,560. Fel y mae Tabl 3 yn dangos, ni fydd unigolyn sy'n ennill Cyflog Byw y DU yn talu mwy tuag at ei ffioedd llys nag y mae'n gwneud ar hyn o bryd yn dilyn cyflwyno'r newidiadau rydym yn eu cynnig.

**A yw'n deg cynyddu ffioedd mewn cyd-destun lle mae prisiau'n codi:**

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6405b5798fa8f527f110a3b1/revising-help-fees-consultation.pdf

36. Nid yw'r cynnydd o 40% yn ffioedd y Goruchaf Lys yn un sy'n cymharu â'r cynnydd a gynigir yn ffioedd GLlTEF. Nid yw ffioedd y Goruchaf Lys wedi'u newid er 2011. Roedd yr ymgynghoriad ar ffioedd GLlTEF, a gyhoeddwyd ar 10 Tachwedd 2023, yn cynnig cynnydd o 10% yn rhai o ffioedd GLlTEF yn rhannol i adlewyrchu newidiadau ôl-ddyddiedig yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.[3] Roedd ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd wedi cynyddu cyn hynny yn 2021.

37. Yn ogystal â hyn, nid yw unigolion ar incwm isel, sy'n fwy tebygol o brofi effaith cynnydd mewn prisiau, yn rhai sy'n cael eu cynrychioli i'r un graddau yn y Goruchaf Lys ag y maent yn y llysoedd is. Dim ond 15% o apelyddion yn y Goruchaf Lys sy'n unigolion yn talu'n breifat am eu ffi ac a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnydd mewn ffioedd. Mae gweddill yr apelyddion yn fusnesau neu'n llywodraethau mewn 66% o'r achosion neu'n rhai sy'n cael cymorth ariannol mewn 19% o'r achosion ac ni fydd cynnydd mewn ffioedd yn effeithio ar y rhain.[4]

**Gallu busnesau neu ddefnyddwyr i fforddio Cwnsler y Brenin:**

38. Mae'r gost am ddod ag achos i'r Goruchaf Lys yn fwy na'r ffioedd llys sy'n gysylltiedig. Mae'r gost hon yn cynnwys cyngor cyfreithiol, ac mae'r rhan fwyaf o bartïon yn defnyddio Cwnsler y Brenin. Dros y pum mlynedd diwethaf, y costau cyfartalog a hawliwyd am apêl yn y Goruchaf Lys oedd £183,000. Felly rydym wedi asesu ei bod yn rhesymol cymryd, o ystyried y costau y maent yn eu hysgwyddo fel arfer wrth ddod ag achos i'r Goruchaf Lys (yn cynnwys y defnydd o Gwnsler y Brenin), y byddai apelyddion hefyd yn gallu fforddio cyfrannu mwy tuag at redeg y Goruchaf Lys.

39. Yn ôl yr amgylchiadau, mae busnesau'n gallu cyfrif ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill yn dreuliau busnes a ganiateir. Yn ogystal â hyn, mae Prif Weithredwr y Goruchaf Lys yn gallu arfer disgresiwn i ddileu ffioedd os yw wedi'i fodloni bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau hynny.

40. Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig a oedd yn yr ymgynghoriad a byddwn yn cynyddu gwerth ffioedd y Goruchaf Lys yn ôl chwyddiant.

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno â'r egwyddor y dylai ffioedd y Goruchaf Lys gael eu haddasu'n rheolaidd yn ôl chwyddiant er mwyn cefnogi sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys?

41. Tri ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd un ymatebydd (33%) wedi rhoi 'ydw' yn ateb, a dau ymatebydd (66%) wedi rhoi 'nac ydw' yn ateb.

[3] https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees

[4] Cymerwyd y data hyn o gofnodion gweinyddol y Goruchaf Lys o ddata achosion ar ddyfarniadau blaenorol a draddodwyd gan y Goruchaf Lys dros gyfnod o 18 mis.

42. Roedd yr ymatebydd a gytunodd â'r cynnig hwn yn gwerthfawrogi ein hymrwymiad i adolygu'r trothwyon bob dwy flynedd, gan deimlo bod hwn yn gyfnod priodol. Roedd yr ymatebwyr a anghytunodd yn credu na ddylid cael addasiad awtomatig yn ôl chwyddiant yn sgil pob adolygiad ond yn hytrach y dylid cael cyfle i gyflwyno sylwadau am briodoldeb y mynegai a'r dull a ddefnyddiwyd.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

43. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn a fydd yn cynnal sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys. Mewn ymateb i'r pryder am gynnydd awtomatig mewn ffioedd yn ôl chwyddiant, bydd asesiad llawn o effaith cynnydd mewn ffioedd yn cael ei gyflawni cyn gwneud unrhyw newidiadau.

44. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw'r mynegai chwyddiant a ddefnyddir gan ei fod yn ffordd dda i fesur y cynnydd cyffredinol mewn prisiau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr i gynyddu ffioedd y Goruchaf Lys tra bydd yn parhau'n ddangosydd tryloyw da o'r cynnydd cyffredinol mewn prisiau.

45. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn fel yr oedd yn yr ymgynghoriad, i adolygu ac ystyried addasu ffioedd y Goruchaf Lys yn ôl chwyddiant yn rheolaidd yn y dyfodol.

**Cwestiwn 7:** Yn dilyn dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael rydym wedi dod i'r casgliad na fydd y cynnydd mewn ffioedd a gynigir yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp oherwydd y polisi dileu ffioedd sydd ar waith yn y Goruchaf Lys. A ydych yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchodedig?

46. Tri ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, ac roedd pob un (100%) wedi rhoi 'ydw' yn ateb.

47. Roeddent wedi tynnu sylw'n benodol at achosion gwahaniaethu lle'r oedd y ceisydd wedi colli cyflogaeth ac wedi gorfod derbyn cyflogaeth ar lefel y Cyflog Byw sy'n cael ei phennu gan elusen y Living Wage Foundation, gan na fyddai'r ceiswyr hyn yn gymwys i gael dileu eu ffioedd, ac felly ni fyddent yn gallu herio'r gwahaniaethu. Roedd ymatebydd arall wedi nodi bod yr ymgynghoriad yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd mwy ar gyfartaledd o blith rhai grwpiau a warchodir ymysg yr ymgyfreithwyr yn y Goruchaf Lys, ac wedi awgrymu y dylid darparu rhagor o dystiolaeth i ategu ein barn y bydd ymgyfreithwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, oherwydd eu lle yn y dosbarthiad incwm, yn gallu fforddio unrhyw ffioedd uwch.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

48. Mae'r Goruchaf Lys yn gwrando nifer cymharol fach o achosion bob blwyddyn o gymharu â'r llysoedd is a thribiwnlysoedd. Yn 2022/23 dim ond 273 o geisiadau a

gafodd. Ar y cyfan, mae'r achosion sy'n cael gwrandawiad yn y Goruchaf Lys yn cael eu dwyn gan sefydliadau llywodraeth neu sefydliadau preifat. Mae'r achosion hynny sy'n cael eu dwyn gan unigolion yn gallu cynnwys achosion lle mae'r ceisydd wedi wynebu gwahaniaethu yn ei waith. Yn yr enghraifft a ddarparwyd gan ymatebydd, mae'n bosibl y byddai'r unigolyn hwn bellach yn ennill Cyflog Byw y DU ac yn wynebu sefyllfa lle mae'n dod ag achos i'r Goruchaf Lys. Fel y nodwyd ym mharagraff 33, ar yr amod ei fod yn bodloni'r prawf cyfalaf gwario, ni fydd gofyn i ymgyfreithiwr ar incwm isel sy'n ennill y Cyflog Byw dalu dim mwy tuag at ei ffioedd yn y Goruchaf Lys nag y mae'n gwneud ar hyn o bryd. Ni fydd hyn yn rhwystr ychwanegol i unigolyn o'r fath sydd am ddod ag achos i'r Goruchaf Lys.

49. Bydd rhai cohortau yn wynebu mwy o effaith o'r cynnydd mewn ffioedd na'i gilydd. Mae'r Datganiad Cydraddoldebau sydd gyda'r cyhoeddiad hwn yn darparu manylion am nodweddion gwarchodedig y grŵp hwn. Yr unigolion a fydd yn debygol o brofi'r effaith fwyaf o ganlyniad i'r cynnydd mewn ffioedd yn y Goruchaf Lys yw'r rheini sydd eisoes yn gorfod talu'n breifat am eu ffioedd llys, ac mae'n bosibl na fyddant yn gymwys i gael dileu rhan o'u ffioedd. Mae Tabl 5 yn dangos y bydd mwy o allu gan yr unigolion hyn i ysgwyddo ffioedd uwch oherwydd eu lle yn y dosbarthiad incwm. Er enghraifft, byddai unigolyn sydd heb blant yn gorfod bod yn 50% uchaf y dosbarthiad incwm i wynebu gofyniad i dalu'r ffi caniatâd i apelio (ffi 1.1) o £1,390 yn llawn, a bod yn y 30% uchaf i dalu'r ffi apelio gyfunol (ffi 2.1 neu 2.2) o £7,855 neu £8,975. Gweler paragraffau 8.3 i 8.5 yn y Datganiad Cydraddoldebau sydd gyda'r ddogfen hon am eglurhad llawn.

**Tabl 5: Gwerthoedd arian gros misol canolrifau'r cwintelau ym mhrisiau cyfartalog 2019/2020 (cyn talu costau tai), y DU***

| Cyfansoddiad yr aelwyd | Incwm gros ym mhob cwintel* | | | | | Yr incwm sy'n ofynnol i dalu'r ffi PTA yn llawn** | Yr incwm sy'n ofynnol i dalu'r ffi apelio** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 (canolrif) | 4 | 5 | | |
| **Sengl, dim plant *****| £1,108 | £2,328 | £3,262 | £4,313 | £6,482 | £3,635 | £4,421 |
| **Sengl gyda phlant ******| £1,151 | £1,703 | £2,153 | £2,684 | £3,733 | £4,060 | £4,846 |
| **Cwpl, dim plant** | £1,670 | £3,239 | £4,268 | £5,559 | £8,506 | £4,345 | £5,131 |
| **Cwpl gyda phlant *******| £1,303 | £2,201 | £3,003 | £4,072 | £6,709 | £4,770 | £5,556 |

* Y ffigur a roddir yw'r canolrif ar gyfer pob grŵp cwintel, felly cwintel 3 yw canolrif y dosbarthiad incwm cyfan.

** Mae atebolrwydd i dalu'r ffi yn llawn yn golygu'r incwm lle mae rhywun yn atebol i dalu swm llawn ei ffi llys. Ar gyfer y brif ffi apelio, rydym yn cyfeirio at y ffi 2.1 gyfunol.

*** Mae "Sengl, dim plant" yn cynnwys pob rhywedd.

**** "Sengl gyda phlant" – ar aelwyd o'r math hwn bydd nifer y plant yn amrywio, ond mae'r trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd a ddefnyddir fel cymharydd yn cymryd bod un plentyn ar yr aelwyd, yn 0-13 oed.

***** "Cwpl gyda phlant" – ar aelwyd o'r math hwn bydd nifer y plant yn amrywio, ond mae'r trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd a ddefnyddir fel cymharydd yn cymryd bod un plentyn ar yr aelwyd, yn 0-13 oed.

Sylwer: mae incwm net wedi'i drosi'n incwm gros drwy ddefnyddio cyfrifiannell treth ar-lein. [5]

50. Rydym hefyd yn credu bod y mesurau i gynyddu ffioedd y Goruchaf Lys yn fesur rhesymol i gyrraedd y nod dilys o sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol gan y Goruchaf Lys bob amser i gyflawni ei rôl gyfansoddiadol bwysig a pharhau'n llys o'r radd flaenaf wrth weinyddu cyfiawnder a chynnal rheolaeth y gyfraith.

[5] Ar gael yn: https://www.thesalarycalculator.co.uk/

# Materion amrywiol y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn

51. Ar wahân i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a drafodwyd uchod, cawsom ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion ar gyfer diwygio ffioedd y Goruchaf Lys. Felly rydym yn trafod yr ymatebion hyn ar wahân i'r adran flaenorol ac, er mwyn rhoi ymateb llawn, rydym yn ymdrin â'r rhain yn fyr yn yr adran hon.

52. Roedd un ymatebydd wedi codi'r mater bod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Goruchaf Lys ar gyfer 2022-23 yn dangos bod gostyngiad sylweddol yn nifer y dyfarniadau ac yng ngwariant y llys rhwng 21/22 a 22/23. Teimlai'r ymatebydd hwn nad oedd yn glir a oedd y newidiadau hyn wedi'u cydnabod, yn enwedig y gostyngiad mewn gwariant, wrth gynnig cynyddu ffioedd llys yn ystod y broses o ddatblygu'r cynnig i gynyddu ffioedd y Goruchaf Lys.

53. Roedd yr ymatebydd hefyd wedi codi'r pwynt y dylai incwm y Goruchaf Lys ddod yn bennaf o wahanol awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â dod yn uniongyrchol o Drysorlys EF.

<u>Ymateb y Llywodraeth:</u>

54. Rydym yn cydnabod bod llai o ddyfarniadau gan y Goruchaf Lys a llai o wariant yn y flwyddyn ddiwethaf. Fel y nodwyd yn Nhabl 1, er bod gwariant y llys wedi gostwng rhwng 2021-22 a 2022-23, ers cyflwyno'r Goruchaf Lys yn 2009 mae'r trethdalwr wedi cyfrannu mwy a ffioedd wedi cyfrannu llai tuag at gyfanswm yr incwm. Yn ogystal â hyn, er 2021, mae GLITEF wedi cynyddu ei gyfraniadau i'r Goruchaf Lys i roi cyfrif am bwysau chwyddiant. Mae'r gostyngiad yn y gwariant rhwng 2021-22 a 2022-23 yn ganlyniad i ffactorau penodol yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys swyddi gwag yn staff y llys a rhoi cyfrif am lesoedd, ac nid yw'n ymwneud â'r cynnig i gynyddu ffioedd. Gyda golwg ar y gostyngiad yn nifer y dyfarniadau a draddodwyd, nid oes dylanwad o gwbl gan Oruchaf Lys y DU dros nifer y ceisiadau am ganiatâd i apelio y mae'n eu cael i'w hystyried. Nid oes cysylltiad rhwng y cynnig i gynyddu ffioedd a'r amrywiad yn nifer y dyfarniadau yn 2022/23 a'i fwriad yn hytrach yw adfer y cydbwysedd yn y model cyllido rhwng y trethdalwr a defnyddwyr y llys, gan ddod â'r cyfraniadau yn agosach at y sefyllfa pan newidiwyd y ffioedd y tro diwethaf.

55. Mewn ymateb i'r sylw ynghylch y ffynhonnell y dylai incwm y Goruchaf Lys ddod ohoni, gallwn roi sicrwydd y bydd y rhan fwyaf o lawer o'r incwm yn dod o hyd o GLITEF, Llywodraeth yr Alban, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon a Thrysorlys EF.

# Casgliad a'r camau nesaf

56. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Wrth osod ffioedd ar gyfer y Goruchaf Lys, mae'r Arglwydd Ganghellor o dan ddyletswydd statudol i sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol yn cael eu darparu i'r Goruchaf Lys er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae cynyddu ffioedd yn ôl chwyddiant i adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau'r Goruchaf Lys yn ffordd i helpu i gynnal cyllid y system gan leihau'r gost i'r trethdalwr cyffredin.

57. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â diwygio ffioedd y Goruchaf Lys fel yr amlinellwyd yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn gwneud y system ffioedd yn llai cymhleth, yn darparu incwm ychwanegol i'r Goruchaf Lys ar amcangyfrif o £170,000 - £210,000 y flwyddyn ar gyfer cyflawni ei waith pwysig, ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer newidiadau mewn ffioedd yn y dyfodol.

58. Mae rhestr lawn yn **Atodiad B** o'r cynigion y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw yn dilyn yr ymgynghoriad. Wrth edrych tua'r dyfodol, ein bwriad yw diweddaru ffioedd yn fwy rheolaidd, bob dwy flynedd, yn ôl chwyddiant er mwyn sicrhau bod ffioedd yn parhau i fod yn adlewyrchiad cywir o'r costau am ddarparu'r gwasanaethau hyn.

59. Mae'r Llywodraeth wedi amlinellu'r mesurau y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â nhw yn dilyn yr ymgynghoriad.

60. Bydd y cynigion yn cael eu gweithredu drwy offeryn statudol negyddol a byddant yn dod i rym yn Ebrill 2024.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

61. Mae diweddariad o'r Asesiad Effaith wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Cydraddoldebau

62. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol bod y Llywodraeth, wrth ddatblygu polisi, yn ystyried effaith ein cynnig ar gydraddoldebau. Yn fyr, mae awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o dan y ddyletswydd cydraddoldeb yn gorfod rhoi sylw i'r canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

63. I ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig perthnasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw: hil; rhyw; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd a chred; oed; priodas a phartneriaeth sifil; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth.

64. Mae diweddariad o'r Datganiad Cydraddoldebau wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Yr iaith Gymraeg

65. Byddai gweithredu'r cynigion yn effeithio hefyd ar y rheini sy'n siarad Cymraeg.

66. Darperir copi Cymraeg o'r diweddariadau o'r Asesiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldebau ar gais.

# Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Cyn-Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr

Llywydd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr

Arglwyddes Brif Ustus Gogledd Iwerddon

Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn

Clerc Arglwydd Ustus yr Alban

Cyngor Cyffredinol y Bar Cymru a Lloegr

Cyngor Cyffredinol y Bar Gogledd Iwerddon

Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant

# Atodiad B: Rhestr derfynol o'r newidiadau mewn ffioedd a gynigir

Mae'r atodiad hwn yn dangos rhestr derfynol o'r newidiadau a gynigir yn ffioedd y Goruchaf Lys y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw yn dilyn yr ymgynghoriad.

| Ffi | Y ffi bresennol (sifil) | Y ffi bresennol (datganoli) | Y ffi a gynigir |
|---|---|---|---|
| **1 Cais am ganiatâd i apelio** | | | |
| 1.1 Wrth ffeilio cais am ganiatâd i apelio | £1,000 | £400 | **£1,390** |
| 1.2 Wrth ffeilio hysbysiad o wrthwynebiad i gais am ganiatâd i apelio | £160 | £160 | **£220** |
| **2 Apeliadau, ayb** | | | |
| 2.1 Wrth ffeilio hysbysiad o dan reol 18(1)(c) o Reolau 2009 o'r bwriad i fwrw ymlaen ag apêl | £800 | £400 | **£7,855*** |
| 2.2 Wrth ffeilio hysbysiad i apelio | £1,600 | £400 | **£8,975**** |
| 2.3 Wrth ffeilio achos sy'n cael ei gyfeirio o dan awdurdodaeth ddatganoli y Goruchaf Lys *<br>* Nid oes ffi yn daladwy lle mae'r achos yn cael ei gyfeirio gan lys | Ddim yn gymwys | £200 | **£7,015***** |
| 2.4 Wrth ffeilio hysbysiad o dan reol 21 (1) o Reolau 2009 (cydnabyddiaeth gan yr atebydd) | £320 | £160 | **£445** |
| 2.5 Wrth ffeilio datganiad o ffeithiau a materion perthnasol ac atodiad o ddogfennau hanfodol | £4,820 | £800 | **Tynnu'r ffi a'i chyfuno â 2.1 – 2.2** |
| **3 Ceisiadau gweithdrefnol** | | | |
| 3.1 Wrth ffeilio cais am adolygu penderfyniad y cofrestrydd | £1,500 | £200 | **£2,095** |
| 3.2 Wrth ffeilio cais am ganiatâd i ymyrryd mewn apêl | £800 | £200 | **£1,115** |
| 3.3 Wrth ffeilio unrhyw gais gweithdrefnol arall | £350 | £200 | **£485** |

| Ffi | Y ffi bresennol (sifil) | Y ffi bresennol (datganoli) | Y ffi a gynigir |
|---|---|---|---|
| 3.4 Wrth ffeilio hysbysiad o wrthwynebiad i gais gweithdrefnol | £150 | £150 | **£205** |
| **4 Costau** | | | |
| 4.1 Wrth gyflwyno hawliad am gostau | 2.5% o'r swm a hawliwyd | 2.5% o'r swm a hawliwyd | **4% o'r swm a hawliwyd** |
| 4.2 Wrth ardystio'r costau a aseswyd gan y Cofrestrydd o dan reol 52 | 2.5% o'r swm a ganiatawyd | 2.5% o'r swm a ganiatawyd | **Tynnu'r ffi a'i chyfuno'n rhannol â 4.1** |
| **5 Copïo** | | | |
| 5.1 Wrth ofyn am gopi o ddogfen (ac eithrio lle bo ffi 5.2 neu 5.3 yn berthnasol) – | | | |
| Am ddeg tudalen neu lai | £5 | £5 | **£5******** |
| Am bob tudalen wedi hynny | 50c | 50c | **50c******** |
| 5.2 Wrth ofyn am ddarparu copi o ddogfen ar ddisg gyfrifiadurol neu ar ffurf electronig arall, am bob copi o'r fath. | £5 | £5 | **£5******** |
| 5.3 Wrth ofyn am gopi ardystiedig o ddogfen | £20 | £20 | **£25** |

* Mae ffi 2.1 wedi'i chyfrifo drwy gyfuno ffi 2.1 a 2.5 (£800 a £4,820) cyn cymhwyso'r cynnydd yn ôl chwyddiant.

** Mae ffi 2.2 wedi'i chyfrifo drwy gyfuno ffi 2.2 a 2.5 (£1,600 a £4,820) cyn cymhwyso'r cynnydd yn ôl chwyddiant.

*** Mae ffi 2.3 wedi cynyddu i adlewyrchu'r costau gweithredu a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag achos sy'n cael ei gyfeirio. Yna mae wedi'i chynyddu yn ôl chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

**** Mae'r ffioedd hyn yn aros yr un fath, o ganlyniad i talgrynnu'r swm â chwyddiant i lawr.

# Atodiad C: Incwm y Goruchaf Lys

| Blwyddyn | Cyfraniadau'r trethdalwr* (£) (000) | Ffioedd y Goruchaf Lys (£) (000) | Incwm arall** (£) (000) | Cyfraniadau'r trethdalwr yng nghyfanswm yr incwm (%) | Ffioedd y Goruchaf Lys yng nghyfanswm yr incwm (%) | Incwm arall yng nghyfanswm yr incwm (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010/11** | 5,970 | 934 | 206 | 84 | 13 | 3 |
| **2011/12** | 5,970 | 727 | 241 | 86 | 10 | 3 |
| **2012/13** | 6,415 | 851 | 201 | 86 | 11 | 3 |
| **2013/14** | 6,440 | 849 | 273 | 85 | 11 | 4 |
| **2014/15** | 6,631 | 966 | 382 | 83 | 12 | 5 |
| **2015/16** | 6,632 | 940 | 402 | 83 | 12 | 5 |
| **2016/17** | 6,632 | 761 | 320 | 86 | 10 | 4 |
| **2017/18** | 6,781 | 850 | 409 | 84 | 11 | 5 |
| **2018/19** | 6,781 | 809 | 412 | 85 | 10 | 5 |
| **2019/20** | 6,949 | 867 | 374 | 85 | 11 | 5 |
| **2020/21** | 6,632 | 751 | 294 | 86 | 10 | 4 |
| **2021/22** | 6,632 | 533 | 455 | 87 | 7 | 6 |
| **2022/23** | 6,792 | 783 | 512 | 84 | 10 | 6 |

* Cyfanswm y cyfraniadau gan GLlTEF, Trysorlys EF a'r awdurdodaethau datganoledig.

** Incwm o ffioedd Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor ac o fentrau yn y farchnad ehangach.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3 o'r Drwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatiau eraill ar gais oddi wrth y Tîm Polisi Ffioedd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: mojfeespolicy@justice.gov.uk